Cuddio

Dwi'n hoffi chwarae gemau
Tu fas ac yn y tŷ
Mae hon yn gêm o guddio
a chyfri - dyma hi

Un, dau, tri
Ble wyt ti?

A wyt ti yn y gegin?
Neu yn y 'stafell fyw?
Efallai yn y lolfa?
Does gen i wir ddim cliw!

Un, dau, tri
Ble wyt ti?

A wyt ti ar y grisiau?
Neu yn y gegin gefn?
Efallai yn y tŷ bach?
Does gen i wir ddim clem!

Un, dau, tri
Ble wyt ti?

Ti'n guddiwr pen-i-gamp
ond o'r diwedd - dyma ti!

Mae'r gân yn cyflwyno / The song introduces:
enwau ystafelloedd o fewn y cartref wrth chwarae gêm guddio /
names of various rooms within the home whilst playing hide-and-seek

Gêm	(Game)
Cuddio	(Hide/Hiding)
Cegin (Gegin)	(Kitchen)
'Stafell fyw / Lolfa	(Living room/Lounge)
Grisiau	(Stairs)
Tŷ bach	(Toilet)

Patrymau Iaith: Wyt ti yn y ...?
(Are you in the ...?)
Ble wyt ti? (... is the best!)
Cyfri - un, dau, tri
(Count – one, two, three)

Neu	(Or)
Efallai	(Maybe)
O'r diwedd!	(At last!)
Dyma ti!	(Here you are!)

© 2025 S4C